Cyngor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Cefndir

Cyngor Gweithlu Addysg Cymru yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer aelodau o'r gweithlu addysg yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws ymarferwyr ym maes addysg a hyfforddiant trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol er budd cofrestreion, dysgwyr a'r cyhoedd.

Diben, cwmpas a statws y Cod

Mae'r Cod yn nodi egwyddorion allweddol ymddygiad ac ymarfer da i gofrestreion yng Nghymru. Yn ogystal, bwriedir iddo lywio barn a phenderfyniadau ymarferwyr a rhoi gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid, dysgwyr a'r cyhoedd am y safonau y gallant eu disgwyl gan y cofrestreion.

Nid canllaw diffiniol na therfynol mo'r Cod. Fodd bynnag, gallai methu â chydymffurfio ag ef fwrw amheuaeth ar gofrestriad unigolyn. Mae gan y Cyngor rymoedd cyfreithiol i ymchwilio i a gwrando ar achosion honedig o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a throseddau y mae cofrestreion yn gysylltiedig â hwynt.

EGWYDDORION ALLWEDDOL – proffesiynoldeb a chynnal ymddiriedaeth yn y gweithlu addysg.

Bydd cofrestreion:

- yn seilio eu perthynas â dysgwyr ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd;
- yn ystyried diogelwch a llesiant dysgwyr yn eu gofal;
- yn cydweithio â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill a datblygu a chynnal perthynas dda â rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr;
- yn ymddwyn yn onest a chydag unplygrwydd;
- yn effro i'r angen, lle y bo'n briodol, am gyfrinachedd;
- yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal safon eu hymarfer proffesiynol;
- yn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg.

YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Mae cofrestreion yn seilio'u perthynas gyda dysgwyr ar ymddiriedaeth a pharch

Bydd cofrestreion:

- yn dilyn polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau* ynghylch materion megis cyfathrebu â dysgwyr, cysylltiad corfforol â dysgwyr, rheoli ymddygiad, cynhwysiant, mynediad a chyfle cyfartal;
- yn cynnal eu perthynas â dysgwyr mewn modd proffesiynol a phriodol yn y gweithle a thu hwnt;
- yn sicrhau bod unrhyw gyfathrebu â dysgwyr yn briodol, gan gynnwys cyfathrebu drwy gyfryngau electronig, megis e-bost, negeseuon testun a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol;
- yn ymroi i ddarparu cyfle cyfartal i bob dysgwr, beth bynnag ei oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, anghenion dysgu ychwanegol, hil, crefydd neu gred.

Mae cofrestreion yn rhoi sylw i ddiogelwch a llesiant dysgwyr yn eu gofal

Bydd cofrestreion:

- yn cydymffurfio â'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr*;
- yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch a llesiant dysgwyr dan eu goruchwyliaeth;
- yn adrodd ar unrhyw ddigwyddiad y gellid ystyried ei fod yn mynd yn groes i'r ffiniau sydd wedi'u sefydlu rhwng cofrestreion a dysgwyr;
- yn cyfrannu at greu amgylchedd teg a chynhwysol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu, stereoteipio a bwlio;
- yn nodi ac yn mynd i'r afael bob amser â materion a allai effeithio ar les dysgwyr.

Mae cofrestreion yn cydweithio â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, ac yn datblygu a chynnal perthynas dda â rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr

Bydd cofrestreion:

- yn ymddwyn yn broffesiynol a chyda pharch tuag at gydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill;
- yn cefnogi a chydweithio â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ar faterion yn ymwneud ag addysg dysgwyr;
- yn dilyn polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau* ar gyfathrebu â rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â meysydd sensitif fel presenoldeb a gwahardd;
- yn datblygu a chynnal perthynas dda rhwng y cartref a'r sefydliad dysgu, gan barchu rôl y rhiant, y gwarcheidwad neu'r gofalwr yn addysg dysgwr.

Mae cofrestreion yn ymddwyn yn onest a chydag unplygrwydd

Bydd cofrestreion:

- yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau* mewn perthynas â defnyddio eiddo, cyfleusterau, cyllid a TGCh y gweithle;
- yn ymdrin â chyllid ac arian yr ysgol yn gywir ac yn defnyddio eiddo neu gyfleusterau'r gweithle'n briodol;
- yn cynnal tasgau'n gysylltiedig ag asesu ac arholiadau gydag unplygrwydd;
- yn gofalu eu bod yn sicrhau cywirdeb gwybodaeth cyn llofnodi dogfennau*;
- yn cynrychioli eu hunain, eu profiad, eu sefyllfa broffesiynol a'u cymwysterau'n onest.

Mae cofrestreion yn effro i'r angen, lle y bo'n briodol, am gyfrinachedd

Bydd cofrestreion:

- yn sicrhau bod cyfathrebu â rhieni, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau*;
- yn cadw cofnodion personol/addysgol dysgwyr yn ddiogel;
- ond yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol pan fydd yn briodol gwneud hynny;
- yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau* ynghylch datgelu gwybodaeth am ddysgwyr.

YMARFER PROFFESIYNOL

Mae cofrestreion yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal safon eu hymarfer

Bydd cofrestreion:

- yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol ar gyfer eu rôl;
- yn cynnal safonau ymarfer uchel mewn perthynas â rheoli dysgu, yr ystafell ddosbarth a gweithdai, cynllunio, monitro, asesu ac adrodd;
- yn diweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth broffesiynol gydol eu gyrfa;
- yn cynnal gwybodaeth gyfoes am ganllawiau perthnasol a datblygiadau addysgol yn eu rôl arbennig, ac ym maes dysgu yn gyffredinol;
- yn myfyrio ar eu hymarfer ac yn ei werthuso fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus;
- yn agored i adborth mewn perthynas â'u hymarfer ac yn ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol iddo;
- yn gofyn am gymorth, cyngor ac arweiniad yn ôl yr angen.

* mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn cynnwys y rheiny a gyhoeddir yn genedlaethol, gan ysgol, goleg, awdurdod lleol neu awdurdod esgobaethol

CYDYMFFURFIO Â'R GYFRAITH

Mae cofrestreion yn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn addysg

Bydd cofrestreion:

- yn cydymffurfio â safonau ymddygiad cyfreithlon, mewn modd sy'n cyd-fynd â'u statws fel aelod o'r proffesiwn addysg;
- yn peidio â chysylltu neu annog eraill i gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch troseddol;
- yn ymwybodol o'u statws fel modelau rôl i ddysgwyr, gan gydnabod y gallai ymddygiad troseddol niweidio ymddiriedaeth a hyder ynddynt yn bersonol ac yn y proffesiwn addysg yn ei gyfanrwydd;
- yn hysbysu eu cyflogwr neu eu hasiant cyfredol a'r Cyngor am unrhyw drosedd gofnodadwy.

Noder: Pan fo unigolyn cofrestredig yn cael euogfarn neu rybudd ffurfiol am drosedd "gofnodadwy", caiff y drosedd hon ei chyfeirio'n awtomatig at Gyngor y Gweithlu Addysg gan yr heddlu. Bydd y Cyngor yn ystyried troseddau o'r fath o ran eu difrifoldeb a'u perthnasedd i gofrestriad yr unigolyn.

Cyhoeddi ac adolygu

Mae'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar gael yn rhad ac am ddim ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor, www.cga.cymru

Caiff y Cod ei adolygu'n barhaus a'i ddiweddaru pan fydd y Cyngor yn ystyried bod hynny'n briodol.

Cyswllt: Priodoldeb i Ymarfer

Cyfeiriad: 9fed Llawr, Eastgate House
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Rhif ffôn: 029 2046 0099

Ffacs: 029 2047 5850

E-bost: priodoldebiymarfer@cga.cymru